

# Canllaw i GYNGOR CYFREITHIOL

Prospect a Bectu

prospect.org.uk • bectu.org.uk

> **Mae Prospect a Bectu yn credu mewn cyfiawnder, cydraddoldeb a thegwch i aelodau, yn eu bywydau gwaith a'r tu allan i'r gwaith. Mae eich aelodaeth o undeb yn rhoi mynediad i chi at ystod effeithiol ac ymatebol, o safon uchel, o wasanaethau cyfreithiol.**

Rydym mewn sefyllfa unigryw i helpu gyda phroblemau yn y gwaith. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd rydym yn gwybod am y sefydliad rydych chi'n gweithio iddo a'r telerau ac amodau sy'n berthnasol i weithwyr. Mae ein gwybodaeth am y gweithle, ynghyd â'n harbenigedd cyfreithiol, yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i chi.

Darperir cyngor a chymorth cyfreithiol yn ôl disgresiwn yr undeb. Os ydym yn cytuno i gefnogi hawliad, bydd yr undeb yn talu'r costau sy'n gysylltiedig â rhoi eich achos gerbron tribiwnlys neu'r llys.

Mae aelodau hefyd yn gymwys i gael cyngor gan gyfreithwyr hynod arbenigol ar hawliadau anaf personol. Yn wahanol i lawer o gwmnïau eraill, gallwch fod yn dawel eich meddwl y byddwch bob amser yn cadw 100% o'ch taliadau iawndal drwy ddod â'ch hawliad drwy gyfreithwyr yr undeb.

### Mae ein cynllun cyngor cyfreithiol yn cynnwys

- hawliau yn y gwaith
- anaf personol
- gwasanaeth cyngor dros y ffôn LegalLine
- cyfraith reoleiddiol, broffesiynol a throseddol
- gwasanaethau cyfreithiol eraill –
  - esgeulustod clinigol
  - ewyllysiau
  - digolledu am anafiadau troseddol
  - budd-daliadau lles
- gwasanaethau cyfreithiol am bris gostyngol drwy ein cyfreithwyr ar amrywiaeth o faterion eraill nad ydynt yn ymwneud â gwaith.

## Sut i gael gafael ar help

I gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau cyfreithiol, ewch i prospect.org.uk a bectu.org.uk neu

- cysylltwch â'ch cynrychiolydd undeb lleol
- anfonwch e-bost at eich trafodwr amser llawn
- Aelodau Prospect - ffoniwch y Ganolfan Cyswllt Aelodau ar **0300 600 1878**
- anfonwch e-bost at **ProspectLegal@prospect.org.uk**

Mae rhai gwasanaethau a ddisgrifir yn y canllaw hwn yn cael eu darparu'n uniongyrchol gan gyfreithwyr yr undeb. Gall aelodau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon sy'n ceisio cael mynediad at y gwasanaethau hyn (ac eithrio cyngor ar hawliau cyflogaeth yn y gwaith) ffonio llinell cyngor cyfreithiol ein cyfreithwyr ar **0800 587 1278**. Bydd angen i chi gael eich rhif aelodaeth ac amlinelliad byr o'r mater wrth law pan fyddwch yn ffonio.



# Cynllun cyfreithiol Prospect a Bectu

Cynigir cyngor a chymorth cyfreithiol yn ôl disgresiwn yr undeb a phenderfynir ar sail ffeithiau a rhinweddau pob achos.

Rydym yn ystyried ffactorau gan gynnwys:

- y siawns o lwyddo
- effaith yr achos ar aelodau eraill
- cost-effeithiolrwydd rhedeg yr achos o'i gymharu â'r canlyniad tebygol.

Mae'r rhan fwyaf o fuddion nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith, gan gynnwys y cynllun anafiadau personol a chyngor dros y ffôn LegalLine, hefyd ar gael i bartner yr aelod, ei briod neu unrhyw un o'u plant dan 19 oed.

Byddwn yn adolygu ac yn trafod rhinweddau pob achos yn rheolaidd gyda'r aelod. Mae penderfyniadau ynghylch parhau i gynrychioli neu ariannu cyngor yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Cymhwyso ar gyfer cymorth yn y gweithle a chymorth cyfreithiol

Rhaid i'r sawl sy'n ceisio cymorth:

- fod yn aelod ar yr adeg y mae'r broblem yn codi a rhaid i'w taliadau tanysgrifiad fod yn gyfredol;
- parhau i fod yn aelod ac wedi talu'r tanysgrifiadau aelodaeth perthnasol am hyd eu hachos;

- peidio â chael cynrychiolaeth gan drydydd parti cyn cysylltu â'r undeb nac yn ystod ein triniaeth o'r achos;
- peidio â chymryd cyngor cyfreithiol annibynnol gan drydydd parti cyn cysylltu â'r undeb neu yn ystod ein triniaeth o'r achos;
- peidio â dechrau ymgyfreitha cyn cysylltu â'r undeb nac yn ystod ein triniaeth o'r achos, oni bai ei fod gyda'n cytundeb a'n hawdurdod ni.

Gellir gwrthod neu dynnu cymorth yn ôl os yw'r person sy'n ceisio cymorth:

- yn penderfynu peidio â bwrw ymlaen, neu'n gweithredu'n groes i'n cyngor ni neu gyngor ein cyfreithwyr;
- wedi cael gwybod nad oes gan ei achos unrhyw obaith rhesymol o lwyddo;
- yn methu â darparu gwybodaeth berthnasol;
- yn darparu gwybodaeth gamarweiniol neu anghyflawn;
- yn methu â chydweithredu â'r cynghorydd a/neu gydymffurfio â chyngor rhesymol y cynghorydd;
- yn gofyn am gymorth mor agos at y dyddiad terfyn fel nad yw'n rhesymol ymarferol asesu rhinweddau honiad a chyflwyno/codi'r honiad i'r llys neu'r tribiwnlys perthnasol;
- yn defnyddio iaith neu ymddygiad sarhaus tuag at unrhyw gynrychiolydd Undeb, gweithiwr neu unrhyw un o'n cwmnïau cyfreithiol allanol neu unrhyw un sy'n gysylltiedig â'i achos. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad sy'n groes i **God Ymddygiad** Prospect[1];
- bod chwalfa wedi digwydd yn y perthynas rhwng Prospect a'r aelod..

## Aelodau wedi ymddeol a di-waith

Mae aelodau sydd wedi ymddeol ac sy'n ddi-waith yn gymwys i gael y rhan fwyaf o wasanaethau cyfreithiol. Yr eithriad yw cymorth gyda materion sy'n ymwneud â gwaith – fel hawliau cyflogaeth, anaf personol yn y gweithle neu faterion rheoleiddio – os yw'r rhain yn codi tra maent yn talu'r cyfraddau tanysgrifio i bobl sydd wedi ymddeol neu sy'n ddi-waith.

## Cwmpas daearyddol

Ein nod yw sicrhau bod ein gwasanaethau cyfreithiol ar gael mor eang â phosibl.

Ond nid yw pob gwasanaeth yn berthnasol (neu'n berthnasol yn yr un ffordd yn union) i aelodau sy'n byw yn Ynys Manaw neu Ynysoedd y Sianel. Mae hyn oherwydd y gwahanol systemau cyfreithiol a pha gyngor sydd ar gael.

Holwch eich trafodwr Prospect amser llawn neu dîm cyfreithiol yr undeb i gael rhagor o wybodaeth am wasanaethau yn yr ardaloedd hyn.

Ni allwn roi cyngor ar faterion cyfreithiol sy'n codi dramor neu ar gontractau a lywodraethir gan awdurdodaethau cyfreithiol eraill.

---

1 *https://mx.prospect.org.uk/asset/26EF1939-2E28-4260-80ADF4B9589E224C/*



# Hawliau yn y gwaith

Gall yr undeb gynghori a chynrychioli aelodau o ran eu hawliau yn y gwaith. Mae hwn yn wasanaeth llawn, yn amrywio o gyngor cychwynnol i gynrychiolaeth gyfreithiol yn y llys, gan gynnwys:

- cyngor ar bolisïau a gweithdrefnau'r gweithle
- cynrychiolaeth mewn cyfarfodydd cwyno neu ddisgyblu yn y gweithle
- cyngor ar hawliau cyfreithiol
- cynrychiolaeth mewn tribiwnlysoedd cyflogaeth a llysoedd eraill.

## Sut i gael cyngor

Dylai aelodau sy'n ceisio cyngor ofyn yn gyntaf i'w cynrychiolydd undeb lleol yn y gweithle, os oes un ar gael. Bydd eich cynrychiolydd lleol yn delio'n gyfan gwbl â llawer o achosion. Mae ein cynrychiolwyr wedi cael eu hyfforddi, cânt eu cefnogi ac maent yn brofiadol.

Gan eu bod nhw'n adnabod y gweithle'n dda, maent yn ffynhonnell ardderchog o gyngor a chefnogaeth ar lawer o faterion. Gall y cynrychiolydd godi materion yn uniongyrchol gyda'r rheolwyr a bydd yn aml yn cynrychioli aelodau mewn gwrandawiadau cwyno neu ddisgyblu.

Bydd trafodwyr amser llawn yr undeb yno bob amser i gefnogi'r cynrychiolydd lleol. Bydd y trafodwr yn delio'n uniongyrchol ag achosion mwy cymhleth neu'r rheini sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol. Hefyd, os nad oes unrhyw gynrychiolwyr lleyg, bydd y trafodwr yn cynghori.

Mae tîm cyfreithiol Prospect yn rhoi cyngor a chymorth ar faterion cyfraith cyflogaeth i drafodwyr amser llawn. Bydd swyddog cyfreithiol yn gysylltiedig â phob achos sy'n mynd i'r tribiwnlys cyflogaeth a bydd yn delio'n uniongyrchol â'r achosion mwy cymhleth.

Bydd y swyddogion cyfreithiol yn cyfarwyddo Cwnsler i gael cyngor pellach neu gynrychiolaeth i aelodau lle bo angen ac yn ôl disgresiwn Prospect. Efallai y bydd rhai achosion yn cael eu cyfeirio at gyfreithwyr allanol yr undeb.

***Os nad ydych chi'n gwybod pwy yw eich cynrychiolydd neu'ch trafodwr, ffoniwch Prospect ar 0300 600 1878 neu Bectu ar 020 7346 0900.***

## Gwybodaeth am hawliau yn y gwaith

Mae Prospect yn cynhyrchu papurau briffio rheolaidd ar gyfraith cyflogaeth. Ceir hefyd nifer o ganllawiau manwl i aelodau ar faterion megis:

- cydraddoldeb yn y gwaith
- contractau cyflogaeth
- absenoldeb rhiant a theulu
- contractau cyfnod penodol
- Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth), a elwir yn TUPE
- chwythu'r chwiban.

Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan yn **prospect.org.uk/get-involved/guides-for-reps/** neu **bectu.org.uk/get-involved/guides-for-reps/** neu drwy'r post o'ch swyddfa ranbarthol Prospect/Bectu.

## Tribiwnlysoedd cyflogaeth

Mae terfynau amser caeth ar gyfer cyflwyno hawliadau i dribiwnlys cyflogaeth. Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o hawliad, gan gynnwys diswyddo annheg neu wahaniaethu, rhaid dechrau'r broses o fewn tri mis i'r diswyddiad neu'r digwyddiad. Felly, mae'n bwysig iawn bod aelodau'n gofyn am gyngor cyn gynted ag y bo modd.

## Pensiynau

Gall yr undeb gynnig cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol ar faterion yn ymwneud â phensiynau. Dylai aelodau sy'n ceisio hyn gysylltu'n gyntaf â'u cynrychiolydd lleol neu drafodwr amser llawn.

Os bydd aelod yn marw, gall ei bartner, ei briod neu fuddiolwyr eraill y cynllun pensiwn geisio cyngor gan yr undeb ynghylch materion yn ymwneud â buddion a hawliau dibynyddion sy'n deillio o'r cynllun am hyd at 12 mis ar ôl marwolaeth yr aelod.



# Anaf personol

Mae cynllun anafiadau personol yr undeb yn rhoi cyngor arbenigol i aelodau a, lle bo'n briodol, gynrychiolaeth drwy ein cyfreithwyr.

Gall hawliadau am anafiadau personol godi pan fydd damwain neu salwch yn digwydd oherwydd esgeulustod y cyflogwr neu drydydd parti.

Ffoniwch ein cyfreithwyr ar LegalLine **0800 587 1278** i gael cyngor ar anafiadau personol.

Gofynnir i chi am fanylion yr hawliad yn fyr a'ch rhif aelodaeth Prospect/ Bectu.

Fel arall, cysylltwch â thîm cyfreithiol mewnol Prospect ar **020 7902 6624**.

## Damweiniau/salwch yn y gwaith

Mae aelodau'n gymwys i gael cyngor ynghylch unrhyw anaf sy'n deillio o ddamwain neu ddigwyddiad yn y gwaith, megis cwymp neu anaf oherwydd offer diffygiol.

Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys aelodau sydd wedi datblygu salwch neu glefyd drwy waith, er enghraifft, dod i gysylltiad ag asbestos neu sylweddau peryglus, neu straen sy'n gysylltiedig â gwaith.

## Damweiniau/salwch y tu allan i'r gwaith

Mae gan aelodau, eu partner, eu priod neu eu plant dan 19 oed hefyd warchodaeth ar gyfer unrhyw anaf neu salwch sy'n codi y tu allan i'r gwaith, fel damweiniau ar y ffordd, offer diffygiol, neu sylweddau peryglus y deuir i gysylltiad â nhw y tu allan i'r gwaith.

## Damweiniau dramor

Nid yw'r cynllun cyngor cyfreithiol ar anafiadau personol yn cynnwys damweiniau neu salwch sy'n digwydd dramor nad ydynt yn gysylltiedig â gwaith. Os bydd aelod yn cael damwain dramor sy'n gysylltiedig â'i gyflogaeth, byddai'r undeb yn ystyried darparu cyngor os nad yw'r mater yn cael ei gwmpasu gan yswiriant teithio ac yswiriant cyflogwyr. Bydd LegalLine yn rhoi cyngor cychwynnol am gwynion defnyddwyr ynghylch yswiriant teithio.

## Clefydau sy'n gysylltiedig ag ymbelydredd

Cytunwyd ar y Cynllun Iawndal ar gyfer Clefydau Cysylltiedig ag Ymbelydredd (CSRLD) rhwng nifer o gyflogwyr ac undebau llafur, gan gynnwys Prospect. Mae'r cynllun yn cynnig ffordd o ddatrys hawliadau heb achos llys i aelodau'r undeb. Bydd cyfreithwyr Prospect yn darparu cyngor annibynnol ar gynigion a wneir drwy'r cynllun.

Mae CSRLD yn cynnwys nifer o gyflogwyr yn y diwydiant niwclear yn y DU, gan gynnwys UK Atomic Energy Authority, Urenco UK Ltd, EDF Energy Nuclear Generation Ltd, y Weinyddiaeth Amddiffyn, Atomic Weapons Institution, Babcock International Group, Devonport Royal Dockyard Ltd, Rosyth Royal Dockyard Ltd, Babcock Marine (Clyde) Ltd, GE Healthcare, Sellafield Ltd, Magnox Ltd, Springfields Fuel Ltd, Dounreay Sites Restoration Sites Ltd.

I ddechrau hawliad i'r CSRLD, cysylltwch â'ch swyddfa Prospect ranbarthol – yn Llundain, Lerpwl neu Gaeredin, yn dibynnu ar eich gweithle.



# Cyngor ar y llinell gyfreithiol

Drwy ein cyfreithwyr, gall aelodau geisio cyngor cyfreithiol cychwynnol am ddim ar unrhyw faterion cyfreithiol nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth.

Mae **LegalLine** ar agor ddydd **Llun rhwng 9am a 7pm a rhwng 9am a 6pm o ddydd Mawrth i ddydd Gwener** er mwyn cael cyngor cyffredinol. Y tu allan i'r amseroedd hyn, gallwch siarad â gwasanaeth ateb a bydd cynghorydd yn eich ffonio'n ôl ar y diwrnod gwaith nesaf.

Mae'r gwasanaeth hwn ar gael i holl aelodau Prospect a Bectu, eu priod, eu partner neu unrhyw un o'u plant dan 19 oed.

Dim ond cyngor cyfreithiol cychwynnol a ddarperir gan LegalLine. Ni fydd y cynghorwyr yn gallu rhoi cyngor manwl, hir neu gymhleth. Byddant yn ymchwilio i wybodaeth gyfreithiol ac yn ystyried ychydig o ddogfennau lle bo angen, ond dylai aelodau fod yn ymwybodol bod y cymorth yn gyfyngedig.

Aelodau yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ffoniwch *LegalLine* ar

**0800 587 1278**

Gwnewch yn siŵr bod eich rhif aelodaeth a gwybodaeth gefndir wrth law gennych.

# Cyfraith reoleiddiol, broffesiynol a throseddol

Mae aelodau'n gymwys i gael cyngor a chymorth cyfreithiol os ydynt yn wynebu erlyniad posibl am drosedd sy'n:

- codi pan oedd yr aelod, fel rhan o'i gyflogaeth, yn dilyn gweithdrefnau neu gyfarwyddiadau'r cyflogwr, a
- bod y cyflogwr wedi gwrthod, wedi methu â darparu, neu wedi tynnu cymorth cyfreithiol yn ôl, ac
- os ceir yr aelod yn euog o'r drosedd, y byddai cyflogaeth yr aelod mewn perygl.

Er enghraifft, mae aelodau'n gymwys i gael cymorth os ydynt yn wynebu ymchwiliad neu erlyniad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu awdurdodau statudol neu reoleiddiol eraill, sy'n codi o'u cyflogaeth.

Dylai aelodau sy'n ceisio cyngor yn yr amgylchiadau hyn gysylltu â swyddog amser llawn eu hundeb neu, mewn argyfwng, ag un o swyddogion cyfreithiol Prospect neu un o'r dirprwy ysgrifenyddion cyffredinol.

Os nad yw cyfweliad yn cael ei gynnal o dan rybudd ar y cam ymchwilio cychwynnol, gall y swyddog amser llawn roi cyngor a chymorth. Pan fydd aelodau'n cael eu cyfweld dan rybudd, byddant yn gymwys i gael cymorth drwy gyfreithwyr penodedig yr undeb.

Nid yw'r undeb yn rhoi cyngor ar faterion troseddol sy'n codi y tu allan i'r gwaith, nac ar faterion a all godi yn y gweithle, ond nid fel rhan o ddyletswyddau swyddogol yr aelodau. Gall cyngor cychwynnol ar faterion o'r fath fod ar gael drwy'r llinell cyngor cyfreithiol gyffredinol.

# Gwasanaethau cyfreithiol eraill

## Esgeulustod clinigol

Bydd cyfreithwyr yr undeb yn darparu cyngor cychwynnol am ddim i benderfynu a yw achos o esgeulustod clinigol yn edrych yn ddichonadwy ai peidio. Mae'r gwasanaeth ar gael i aelodau, eu priod, eu partner neu blant dan 19 oed. Bydd yr achosion hyn yn deillio o ofal iechyd a ddarperir gan ysbyty neu weithiwr proffesiynol meddygol. Bydd y cyfreithwyr yn ymchwilio i'r achos ac yn rhoi cyngor ar y siawns o lwyddo ac, os yw'n briodol, byddant yn rhoi gwybod i'r aelod am drefniadau posibl ar gyfer ariannu'r achos.

Ffoniwch ein cyfreithwyr ar **0800 587 1278**.

## Ewyllysiau

Bydd cyfreithwyr yr undeb yn darparu ewyllys syml am ddim i aelodau a'u partneriaid. Diffinnir ewyllys syml fel un lle mae asedau personol (yn hytrach na busnes) yn cael eu gadael i briod, partner, plant, perthynas neu ffrind. Mewn achosion eraill, bydd y cyfreithwyr yn paratoi'r ewyllys ar gyfradd ddisgownt sylweddol.

Ffoniwch y cyfreithwyr ar **0800 587 1278** neu gall aelodau yng Nghymru a Lloegr lenwi ffurflen ar-lein i ddechrau'r cais am ewyllys yn **prospect.org.uk/wills** neu **bectu.org.uk/freewills**.

## Cynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol

Gall aelodau ofyn am gyngor ar hawliadau i'w gwneud i'r cynllun digolledu am anafiadau troseddol. Yn y lle cyntaf, codwch hyn gyda'ch swyddog undeb amser llawn.

## Budd-daliadau lles

Gall Prospect ddarparu cyngor cychwynnol ar fudd-daliadau lles sy'n gysylltiedig â gwaith, fel Credyd Cynhwysol.

I gael cyngor, dylai aelodau gysylltu â'u trafodwr amser llawn yn gyntaf. Mae terfynau amser caeth ar gyfer gwneud ceisiadau i adolygu penderfyniadau neu apeliadau, felly cynghorir aelodau i gysylltu â'r undeb cyn gynted ag y bo modd.

## Gwasanaethau cyfreithiol am bris gostyngol

Mae cyfreithwyr yr undeb yn darparu amrywiaeth o wasanaethau eraill am bris gostyngol arbennig i aelodau. Ymysg y rhain mae:

- trawsgludo ac eiddo
- profiant
- gwasanaethau yn ddiweddarach mewn bywyd (gan gynnwys atwrneiaethau).

Ffoniwch y cyfreithwyr ar **0800 587 1278**.



Canllaw i

# GYNGOR CYFREITHIOL

## Prospect a Bectu

Cyhoeddwyd gan Prospect
100 Rochester Row
London SW1P 1JP
T 0300 600 1878

© Prospect, 2026

26-0009/Jan26/

**CWYNION:** Rydyn ni'n gobeithio bod yr aelodau'n fodlon â'r gwasanaeth maen nhw'n ei dderbyn. Os bydd problem, dylai'r aelod godi'r mater yn gyntaf gyda'r trafodwr amser llawn sy'n delio â'i achos. Os nad yw'r mater yn cael ei ddatrys yn foddhaol, gall godi ei bryderon gyda rheolwr llinell y sawl sy'n delio â'r achos neu, yn olaf, gydag Ysgrifennydd Cyffredinol Prospect. O ran gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan gyfreithwyr Prospect, byddant yn rhoi cyngor ar drefn gwyno'r cwmni. **https://prospect.org.uk/about/complaints/** a **https://bectu.org.uk/about/complaints/**

prospect.org.uk • bectu.org.uk